Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

# Cwynion i'r Comisiynydd Safonau

23 Mawrth 2018

**Cais am wybodaeth**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 26 Chwefror, pan wnaethoch ofyn:

*O dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, a fyddech cystal â darparu'r wybodaeth ganlynol am y cyfnod o fis Mai 2007 hyd at y cofnodion diweddaraf sydd ar gael? A fyddech cystal â dangos y wybodaeth fesul blwyddyn galendr (2007, 2008, 2009 ac ati).*

1. *Nifer yr adroddiadau i Gomisiynydd Safonau'r Cynulliad neu Gynulliad Cenedlaethol Cymru am aflonyddu rhywiol honedig gan Aelodau Cynulliad Cymru*
2. *Nifer yr ymchwiliadau gan y Comisiynydd Safonau / Cynulliad Cenedlaethol sy'n deillio o adroddiadau am aflonyddu rhywiol honedig gan Aelodau Cynulliad Cymru*
3. *Y nifer a'r math o gosbau / camau disgyblu a gymerwyd gan y Comisiynydd Safonau / Cynulliad Cenedlaethol o ganlyniad i aflonyddu rhywiol honedig gan Aelodau Cynulliad Cymru*
4. *Nifer yr ymchwiliadau gweithredol cyfredol gan y Comisiynydd Safonau i aflonyddu rhywiol honedig gan Aelodau Cynulliad Cymru. Os oes posibilrwydd bod y cais yn fwy na therfynau Adran 12 y ddeddf, a fyddech cystal â rhoi gwybod imi sut y gallaf gyfyngu fy nghais i'w wneud yn ymarferol o fewn y terfynau.*

Oherwydd y ffordd yr ymdrinnir â chwynion, rwyf wedi rhannu eich cais i'r hyn y mae'r Comisiynydd Safonau yn ymdrin â nhw a’r hyn y mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad") yn ymdrin â nhw. Manylir ar ein hymateb isod.

**<u>Cwestiynau 1-4 mewn perthynas â'r Comisiynydd Safonau</u>**

Mae'r Cynulliad yn cadw gwybodaeth yn ymwneud â chwynion a geir gan y Comisiynydd Safonau ar ran y Comisiynydd. Mae hyn oherwydd bod ysgrifenyddiaeth y Comisiynydd Safonau yn cynnwys staff a gyflogir gan Gomisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Bae Caerdydd
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 0300 200 6544
MynediadAtWybodaeth@Cynulliad.cymru Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales

O dan adran 3 (2) (a) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ("y Ddeddf"), "information is held by a public authority if ... it is held by the authority, otherwise than on behalf of another person". Felly, ni ellir ystyried bod y wybodaeth a gedwir gan y Cynulliad ar ran person arall (y Comisiynydd Safonau yn yr achos hwn) wedi'i "chadw" gan y Cynulliad at ddibenion y Ddeddf. O dan yr amgylchiadau, ni all y Cynulliad ddatgelu'r wybodaeth.

Er bod y Cynulliad yn awdurdod cyhoeddus o dan y Ddeddf, nid yw'r Comisiynydd Safonau yn awdurdod cyhoeddus. Felly, nid yw o dan unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol i ddarparu'r wybodaeth. Fodd bynnag, efallai y bydd gennych ddiddordeb yn y Adroddiadau Blynyddol sydd ar gael ar wefan y Comisiynydd.

**Cwestiynau 1-3 mewn perthynas â'r Cynulliad**
Mae'r wybodaeth y gofynnir amdani ynglŷn â nifer yr adroddiadau am aflonyddu rhywiol honedig gan Aelodau'r Cynulliad ers mis Mai 2007 yn cynnwys data personol at ddibenion Deddf Diogelu Data 1998 ac mae'n dod o fewn cwmpas yr eithriad "gwybodaeth bersonol" yn adran 40 y Ddeddf.

Mae nifer y bobl yr effeithir arnynt mor fach fel y gellid adnabod y bobl dan sylw, naill ai o'r data ei hun, neu o'r data hynny yn ychwanegol at wybodaeth arall, pe byddai'r wybodaeth y gwneir cais amdani yn cael ei datgelu. O dan yr amgylchiadau, ni allwn ein bodloni ein hunain y byddai'n deg datgelu'r wybodaeth yr ydych yn gofyn amdani. Felly, rydym yn ystyried bod y wybodaeth yn eithriedig o dan adran 40(2) o'r Ddeddf.

Fodd bynnag, gallwn ddweud wrthych fod nifer yr adroddiadau am aflonyddu rhywiol honedig gan Aelodau'r Cynulliad ers mis Mai 2007 yn llai na thri. Mae rhagor am y rhesymeg sy'n sail i hyn yn yr atodiad i'r llythyr hwn

Ystyriwyd eich cais yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Rhowch wybod imi os oes gennych unrhyw ymholiadau ynghylch yr ymateb hwn. Os credwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno’n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Mae egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i’r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â’r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Atodiad**

Mae'r wybodaeth hon yn dod o dan y diffiniad o wybodaeth bersonol yn Neddf Diogelu Data 1998 ("Data which relate to a living individual who can be identified …from those data, or from those data and other information which is in the possession of, or is likely to come into the possession of, the data controller”). Felly mae'r wybodaeth wedi'i heithrio o'r gyfundrefn ddatgelu o dan adran 40(2) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 lle byddai datgelu'r wybodaeth hon yn mynd yn groes i unrhyw un o'r egwyddorion diogelu data. Caiff yr egwyddor sy’n berthnasol yn yr achos hwn ei hamlinellu isod.

Mae'r egwyddor gyntaf o ran diogelu data, fel y'i nodir yn Atodlen 1 o Ddeddf Diogelu Data 1998, yn datgan:

> “Personal data shall be processed fairly and lawfully and, in particular, shall not be processed unless at least one of the conditions in Schedule 2 is met.”

Wrth benderfynu a fyddai datgeliad yn deg, rydym wedi ystyried goblygiadau datgelu'r wybodaeth hon, disgwyliadau rhesymol yr unigolyn, a'r cydbwysedd i'w daro rhwng hawliau'r unigolyn ac unrhyw fudd dilys mewn perthynas â datgelu. Ein casgliad yw y byddai’n annheg datgelu’r wybodaeth. Ceir crynodeb o’n trafodaethau isod.

Gellid adnabod y sawl a gyflwynodd y gŵyn a thestun yr honiad pe byddem yn datgelu nifer yr honiadau a wnaed, ond gallai hefyd atal unigolion rhag gwneud honiadau o'r fath yn y dyfodol. Trwy ddatgelu, byddai'r polisi sydd ar waith i ddiogelu staff rhag ymddygiad o'r fath yn y gweithle yn cael ei beryglu, yn ein barn ni.

Rydym yn cydnabod bod budd dilys mewn gwybod ein bod yn cofnodi'r honiadau hyn a bod proses ar waith i ymchwilio iddynt, ond rydym yn ystyried y bodlonir y budd hwn gan y ffaith ein bod yn darparu ffigur dienw ichi.

Ar ôl dod i'r casgliad y byddai'n annheg datgelu'r wybodaeth, nid yw'n ofynnol inni roi rhagor o ystyriaeth i amodau prosesu eraill a nodir yn Atodlenni 2 a 3 y Ddeddf.